Polisi ynglŷn â Cholli Elw Busnes

RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP

HAFREN DYFRDWY
severn dee

Polisi ynglŷn â Cholli Elw Busnes

Colli Elw

Mae Hafren Dyfrdwy yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn derbyn y gwasanaeth gorau y gallwn ei ddarparu, ac felly weithiau mae'n angenrheidiol gwneud gwaith i adeiladu, cynnal a chadw, atgyweirio a gwella'n prif bibelli dŵr a charthffosydd presennol yn y briffordd gyhoeddus.

Cydnabyddwn y gall y gwaith hanfodol hwn yn anffodus beri rhywfaint o darfu ar fusnesau yn yr ardal rydym yn gweithio ynddi. Gwnawn bopeth sy'n rhesymol bosibl i leihau hyd yr eithaf ar y tarfu ond gall rhai busnesau ddal i ddioddef colledion o ganlyniad i'n gwaith. Yn yr amgylchiadau hyn, gall hi fod yn bosibl hawlio iawndal am golli elw busnes.

Hawl i Iawndal am Golli Elw

Cynigir taliadau Colli Elw Busnes mewn perthynas ag Atodlen 12.1 Deddf y Diwydiant Dŵr. Mae'r iawndal yn ad-daliad am golli elw dim ond ar ôl tynnu maint yr elw gros.

Nid oes yna iawndal yn daladwy am unrhyw golli enillion, colli cyflenwad/gwasanaeth (dŵr neu garthffosiaeth), incwm gwerthiant neu anghyfleustra. Efallai y gostyngir iawndal os nodir fod yna unrhyw effeithiau eraill.

Er mwyn i hawliadau gael eu hystyried:

- Mae'n rhaid dangos effaith y tarfu a achoswyd gan ein gwaith ffisegol ni, e.e., sŵn wrth weithio y tu allan i'ch adeiladau.
- Mae'n rhaid ichi fod yn fusnes sydd wedi'i leoli'n barhaol yn lleoliad yr hawliadau, e.e., nid busnes symudol/sy'n ymweld, yn cynnwys gwasanaethau tacsi.
- Mae'n rhaid i'ch busnes fod wedi'i gofrestru â Thollau a Chyllid Ei Fawrhydi.
- Mae'n rhaid i'ch busnes fod y dibynnu ar gwsmeriaid sy'n mynd heibio, e.e., cwmnïau gwerthu ar y we, ac yn y blaen.

Nid ydym fel arfer yn talu iawndal os unig effaith ein gwaith yw bod cwsmeriaid dichonol yn gorfod dilyn llwybr dargyfeiriedig i gyrraedd busnes hawliwr neu os yw cwsmeriaid yn methu dros dro â pharcio wrth ymyl busnes ar stryd sydd fel arfer â chyfyngiadau parcio.

Tystiolaeth Hawliad

Er mwyn i'ch hawliad gael ei ystyried, mae'n rhaid bod yna brawf digonol o golled, gyda thystiolaeth cofnodion cyfrifon o'ch busnes. Arnoch chi y mae'r cyfrifoldeb i ddangos tystiolaeth i ategu'ch hawliad. Os yw'ch busnes o natur gwesty/gwely a brecwast/gwersylla, bydd angen tystiolaeth ysgrifenedig o ddiddymiadau i ategu'ch hawliad.

Ein bwriad yw talu hawliadau mor gyflym ag y bo modd. Os na ddarperir yr wybodaeth y gofynnwyd amdani, bydd yna oedi wrth gyflwyno ac asesu'ch hawliad.

Cyflwynwch y dogfennau a ganlyn yn llawn, os gwelwch yn dda: -

		Ticiwch fel y bo'n briodol
A	Ffurflen hawlio wedi'i chwblhau'n llawn a'i llofnodi.	
B	Ffigurau masnachu wythnosol neu fisol am y cyfnod hawlio a'r cyfnod dwy flynedd yn syth cyn y cyfnod hawlio. O leiaf 104 o ffigurau wythnosol / 24 o ffigurau misol.	
C	Y ddau Gyfrif Elw a Cholled cyflawn diweddaraf. Dylai o leiaf un cyfrif gwmpasu'r cyfnod y mae ffigurau masnachu llawn wedi'u darparu ar eu cyfer. - Mae'n rhaid i gyfrifon naill ai cael eu harchwilio, neu (b) - Y cytunwyd arnynt â Chyllid y Wlad a'u hardystio gan eich Cyfrifydd.	(a)
CH	Os nad oes gennych gyfrifon wedi'u harchwilio neu gyfrifon ardystiedig, darparwch naill ai: - Dwy flynedd o ffurflenni TAW, neu (b) - Eich papurau hunanasesu gan CThEF. Dylai hyn gwmpasu cyfnod y mae ffigurau masnachu llawn wedi'u darparu ar eu cyfer.	(a)
D	Os ydych wedi bod yn masnachu ers llai na dwy flynedd, datganwch hyn yn y ffurflen datganiad hawlio, os gwelwch yn dda, a darparwch gymaint o wybodaeth inni â phosibl oddi ar y dyddiad ers ichi ddechrau masnachu.	

Efallai y gofynnwn ichi am ragor o wybodaeth i alluogi'n hasesiad o'ch hawliad - er enghraifft, ffigurau gwerthiant am y cyfnod ar ôl gwaith, ffurflenni hunanasesu ar gyfer TAW neu CThEF am y flwyddyn pryd y digwyddodd y gwaith.

A fyddech cystal â darparu unrhyw wybodaeth arall y gallech gredu sy'n fuddiol i gefnogi'ch hawliad.

Lliniaru colledion

Fel hawliwr, mae'n rhaid ichi gymryd camau i gadw'ch colledion mor isel ag y bo modd yn ystod ein gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Parhau i fasnachu yn ystod cyfnod ein gwaith. Mae hyn yn gweddu i bob busnes, yn cynnwys gwestai, lletyau gwely a brecwast a safleoedd gwersylla.
- Cynnal eich oriau agor arferol.
- Cynnal eich lefelau staffio.
- Defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau cyfryngau lleol i gadarnhau eich bod yn agored fel arfer yn ystod cyfnod ein gwaith ac i roi gwybod am drefniadau mynediad/parcio eraill.
- Cynnal ac arddangos arwyddion i hysbysebu bod eich busnes yn agored fel arfer.

Os credwch fod yna fesurau penodol y gallech eu cymryd i helpu i gynnal eich masnach, dylech drafod y rhain gyda ni cyn tynnu unrhyw gostau ar eich pen. Yn anffodus, ni allwn ystyried unrhyw gostau ychwanegol a achoswyd heb ein cymeradwyaeth o flaen llaw.

Cynrychioli Hawliadau

Efallai y daw cwmnïau atoch yn cynnig dilyn hawliad ar eich rhan. Fodd bynnag, yn ein profiad ni, y chi yw'r unigolyn sydd yn y sefyllfa orau i wneud eich hawliad, neu os oes arnoch angen cymorth, eich cyfrifydd a fydd â'r profiad o'ch busnes a'ch dulliau o gyfrifo iawndal. Nid yw Hafren Dyfrdwy yn gallu argymell unrhyw gynrychiolydd hawliadau.

Petaech yn penodi rhywun i gyflwyno'ch hawliad ar eich rhan, yna gwnawn dderbyn hyn. Nodwch, os gwelwch yn dda, y caiff eich hawliad ei asesu **yn union** yn yr un ffordd, p'un a'i fod yn cael ei gyflwyno gennych chi'n uniongyrchol neu gan eich cynrychiolydd ar eich rhan.

Os penderfynwch ddefnyddio cynrychiolydd a benodwyd i hyrwyddo'ch hawliad, sicrhewch, os gwelwch yn dda, eu bod yn anfon ymlaen eich ffurflen datganiad hawlio wedi'i chwblhau ac wedi'i llofnodi gennych chi, ynghyd â thystiolaeth i ategu'ch hawliad. Os na ddarperir yr wybodaeth hon yn llawn, bydd yna oedi wrth asesu'ch hawliad. Nodwch, os gwelwch yn dda, y gallwn ofyn am wybodaeth ychwanegol i gynorthwyo i asesu'ch hawliad.

Nid ydym yn gallu talu TAW ar ffi'ch cynrychiolwyr.

Ffioedd Cynrychiolwyr

Mae'r graddfeydd ffioedd a ganlyn yn berthnasol i gynrychiolwyr sy'n cyflwyno hawliadau ar ran yr hawlwyr o dan Atodlen 12 Deddf y Diwydiant Dŵr.

Band gwerth yr hawliad	Ffi'r Cynrychiolydd (Sefydlog)
£0 - £1,000	£350
£1,000 - £2,500	£450
£2,500 - £5,000	£550
£5,000 - £10,000	£650
£10,000 - £15,000	£750
£15,000 - £20,000	£850
£20,000+	£1,000

Bydd y ffioedd sefydlog uchod, nad ydynt yn agored i drafodaeth, yn cael eu gweithredu o'r 1af o Ragfyr, 2019 a byddant ond yn berthnasol i swm yr hawliad a dalwyd, nid i swm yr hawliad a gyflwynwyd.

Unwaith y bydd cyflwyniad o hawliad wedi'i wneud, byddwn yn cysylltu â'r hawliwr i'w hysbysu am ein graddfa ffioedd sefydlog.

Bydd unrhyw gostau sy'n uwch na'n ffioedd sefydlog, y cytunwyd arnynt rhwng y cynrychiolydd a'r hawliwr cyn (neu ar ôl) yr hawliad cyflawn a gyflwynwyd yn gytundeb sydd ddim ond rhwng y partïon hynny, a barnir gan Hafren Dyfrdwy fod anghydfodau parthed y ffioedd hyn yn anghydfod trydydd parti.

Taliad Llawn o'r Hawliad

Bydd hawliadau fel arfer yn cael eu hasesu unwaith y bydd y gwaith wedi'i orffen. Mewn achosion eithriadol o galedi diledryw, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, gan efallai y gallwn ystyried gwneud taliad interim.

Byddwn yn cydnabod derbyn eich hawliad o fewn 28 niwrnod gwaith, a gwnawn ein gorau glas i gwblhau'n hasesiad o'ch hawliad drwy ymateb ysgrifenedig ffurfiol o few tri mis unwaith y byddwn wedi cael tystiolaeth lawn o'ch hawliad. Os nad yw hyn yn gyraeddadwy, ysgrifennwn atoch yn amlinellu amserlen ar gyfer ein hymateb ac yn egluro'r rhesymau.

Os derbyniwn yr hawliad, byddwn yn gwneud cynnig o daliad llawn ichi. Ar ôl inni dderbyn eich derbyniad ysgrifenedig o'n cynnig, anfonir iawndal drwy ddull trosglwyddiad cyfrif banc BACS, ac fel arfer byddai taliad yn dilyn o fewn 28 niwrnod gwaith.

Er mor annhebygol yw hyn, ond os bydd anghydfod ynglŷn ag a ydym yn atebol am dalu iawndal, neu os bydd anghydfod am y swm, efallai y gwnawn eich gwahodd i gynhyrchu tystiolaeth ychwanegol i roi rhagor o gadernid i'ch hawliad, neu gallwn ofyn am wybodaeth ychwanegol gennych, neu benodi cynghorydd allanol i adolygu'r hawliad megis addaswr colledion neu gyfrifydd fforensig.

Mae Hafren Dyfrdwy yn cadw'r hawl i benodi trydydd parti, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Addaswyr Colledion allanol, i gynorthwyo neu i gwblhau asesu hawliadau. Penodir trydydd parti heb roi hysbysiad o flaen llaw. Telir y costau hyn gan Hafren Dyfrdwy.

Byddwn wedyn yn adolygu'r hawliad gydag unrhyw wybodaeth newydd a ddarperir.

Os pery anghydfod, yna yn unol ag Atodlen 12, paragraff 1 (3) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, gallech atgyfeirio'r hawliad ar gyfer cyflafareddu. Dylech ddarparu manylion tri chyflafareddwr a'u CV inni ar gyfer ein hystyriaeth. Byddwn yn ymateb i'ch cyflafareddwyr arfaethedig o fewn 28 niwrnod gwaith. Os nad ydym yn gallu cytuno ar benodiad cyflafareddwr unigol, yna gall un o'r ddwy ochr ofyn am i reolydd y diwydiant dŵr, Ofwat, benodi cyflafareddwr i wneud cynnydd ar eu hawliad.

Os credwch, ar ôl darllen y nodiadau cyfarwyddyd hyn, fod gennych hawliad dilys, yna cwblhewch y ffurflen datganiad hawlio amgaeedig, os gwelwch yn dda, a darparwch yr wybodaeth y manylir arni eisoes ac anfonwch hyn ymlaen i'r cyfeiriad e-bost – businessloss@hdcymru.co.uk